

Crynodeb Gwirio Ansawdd Canolfan Feddygol Wellspring 10 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Feddygol Wellspring, Rhisga fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Feddygol Wellspring yn bractis hyfforddi pum partner, sy'n cyflogi Uwch-ymarferydd Nyrsio rhan-amser, tair Nyrs Practis rhan-amser a dau Fflebotomydd/Cynorthwydd Gofal Iechyd rhan-amser. Yn ogystal ag ymgynghoriadau rheolaidd, mae'r practis yn darparu amrywiaeth o glinigau a gwasanaethau, ac yn cynnal gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, cwnsela a bydwreigiaeth.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal y GIG 2015. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis a'r Uwch-ymarferydd Nyrsio ar 3 Awst a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

-
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Polisi rheoli pandemigau
- Ffotograffau o'r amgylchedd

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd asesiad risg y practis yn amlinellu amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd hyn yn cynnwys gosod sgriniau wrth ddesg y dderbynfa, gosod lloriau newydd ym mhob rhan o'r practis, sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol yn yr ardaloedd aros a rhoi system unffordd ar waith.

Gwelsom fod y practis wedi rhoi systemau ar waith i ddarparu ymgynghoriadau rhithwir a gwasanaethau eraill i gleifion, megis ceisiadau am bresgripsiwn rheolaidd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hyn wedi gweithio'n dda i lawer o gleifion. Fodd bynnag, roedd yr opsiwn o gael apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael o hyd i gleifion hŷn neu gleifion agored i niwed na allant ddefnyddio'r gwasanaeth rhithwir hwn o bosibl.

Disgrifiodd y practis y broses a oedd ar waith ar gyfer brysbennu'r cleifion. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar lywio gofal¹. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad gyda'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. Yn ystod ymgynghoriadau dros y ffôn, mae meddygon teulu a nyrsys yn gyfrifol am frysennu fel y bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau wedi parhau i gael eu cynnal drwy gydol y pandemig a bod cleifion yn cael eu brysbennu i'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol er mwyn diwallu eu hanghenion. Gwelsom y gellid trefnu apwyntiadau â meddygon teulu ymlaen llaw a bod

¹ Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu'r staff i sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad gyda'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol y tro cyntaf.

system ar waith i ddarparu ar gyfer ceisiadau brys am apwyntiad ar yr un diwrnod.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Cofnodion ac amserlenni glanhau
- Tystiolaeth o sesiynau briffio i'r staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y practis amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau da. Roedd y camau hyn yn cynnwys gosod lloriau a chadeiriau ag arwynebau y gellir eu sychu'n lân yn lle'r hen gadeiriau a charpedi fel y gellir eu glanhau'n effeithiol, sicrhau awyru digonol, trefniadau glanhau gwell a phrosesau i gadarnhau nad oes gan y staff symptomau COVID-19 cyn eu sifft. Nododd y practis fod y bwrdd iechyd wedi darparu cymorth da o ran atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod y practis yn dilyn y polisi a'r gweithdrefnau diweddaraf ar Atal a Rheoli Heintiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofynion atal a rheoli heintiau a diweddariadau cysylltiedig wedi'u cyflwyno i'r staff drwy sesiynau briffio ar COVID-19 gan y nyrs arwain atal a rheoli heintiau enwebedig.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau addas a oedd yn briodol i'w rolau. Ychwanegodd staff y practis eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar atal a rheoli heintiau a sesiynau ymwybyddiaeth drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd staff, gweminarau datblygiad proffesiynol, a gan y bwrdd iechyd lleol.

Gwelsom fod polisi ac amserlen lanhau ar waith, a oedd wedi'u teilwra'n lleol yn briodol i ddiwallu anghenion y practis. Ategwyd hyn gan bolisi rheoli gwastraff a gwelsom fod archwiliad gwastraff â sgôr gadarnhaol wedi'i gwblhau.

Dywedwyd wrthym fod glanhawr yn cael ei gyflogi gan y practis a gwnaethom fwrw golwg

dros sampl o gofnodion i gadarnhau bod gwaith glanhau wedi'i gwblhau'n gyson ym mhob rhan o'r practis. Dywedodd y practis wrthym fod gweithdrefn ar waith i lanhau ardaloedd triniaeth rhwng cleifion a bod yr holl staff yn gyfrifol am gynnal glendid yr ardaloedd cymunedol.

Cawsom wybod bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i bob aelod o'r staff. Cadarnhaodd y practis fod y staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE yn gywir.

Cadarnhaodd y practis fod ymweliadau yn y gymuned wedi parhau, ond mewn modd cyfyngedig. Gwnaethom gadarnhau y caiff asesiadau risg eu cynnal mewn perthynas ag ymweliadau a disgrifiodd y practis y camau a gymerir. Roedd y camau hyn yn cynnwys defnyddio bag â chyfarpar diogelu personol a holi am symptomau'r bobl roedd y staff yn ymweld â nhw yn y lleoliad cymunedol.

Ar gyfer cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, gwnaethom gadarnhau y gallai'r cleifion gael eu gwahanu'n ddiogel oddi wrth y staff a'r cleifion eraill. Roedd hyn yn cynnwys ystafell gwisgo a diosg ar wahân a hebrwng y cleifion i ystafell driniaeth ddynodedig a thrwy fynedfa ar wahân. Gwnaethom gadarnhau bod proses ar waith ar gyfer glanhau ac awyru'r amgylchedd rhwng cleifion a chadarnhaodd y practis fod y carpedi wedi cael eu codi'n ddiweddar fel y gellir glanhau'r lloriau yn effeithiol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom dempled archwiliad glanhau, a chadarnhaodd y practis y caiff ei ddefnyddio fel rhan o hapwiriadau rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y templed wedi'i gwblhau er mwyn nodi pryd y cafodd y rhain eu cwblhau ac i ba safon. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu dogfennu.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer pob aelod o'r staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'r practis yn rhan o Glwstwr Dwyrain Caerffili², lle gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio cefnogol gan y clwstwr. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y clwstwr yn cyfarfod bob deufis, ond ei fod wedi cyfarfod yn amlach drwy gydol y pandemig i rannu arferion gorau a chefnogi'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y practis wedi parhau i ddarparu ei wasanaethau craidd drwy gydol y pandemig. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o'r clinigau a'r gwasanaethau wedi aildechrau ers hynny, ac eithrio'r clinig anadlol. Fodd bynnag, disgrifiodd y practis ffyrdd arloesol y mae'r clwstwr a'r bwrdd iechyd yn gweithio i aildechrau'r gwasanaeth hwn yn ddiogel, gan gynnwys sefydlu canolfan anadlol.

Ychwanegodd y practis hefyd y bu cynnydd amlwg yn nifer y cleifion y mae angen cymorth arnynt i reoli eu diabetes. Dywedodd y practis wrthym fod clinigau ychwanegol wedi'u sefydlu er mwyn darparu mwy o gapasiti a'i fod wedi tynnu sylw'r bwrdd iechyd at hyn. Cynghorir y practis i barhau i fonitro ei allu i gefnogi'r grŵp cleifion hwn.

Dywedodd y practis wrthym ei fod wedi cadw mewn cysylltiad agos â'r tîm nyrsys ardal drwy gydol y pandemig, gan gynnwys nyrsys hosbis Dewi Sant, er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau gofal yn briodol ac yn sensitif.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis wedi cadw mewn cysylltiad agos â'r nifer bach o gleifion sy'n byw mewn lleoliadau yn y gymuned y mae'n ei thrin. Dywedwyd wrthym fod ymweliadau â chartrefi gofal wedi cael eu rheoli'n ofalus ac y gallai staff cartrefi gofal gysylltu â'r practis drwy ffonio rhif ffôn uniongyrchol os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau. Cadarnhaodd y practis fod archwiliadau iechyd blynyddol o gleifion ag anableddau dysgu wedi'u cwblhau.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cwblhau Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan er mwyn asesu eu hamgylchiadau personol mewn perthynas â'r pandemig. Cadarnhaodd y practis fod hwn wedi'i gwblhau unwaith eto ar gyfer y staff a oedd wedi bod i ffwrdd o'r gweithle am gyfnod.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ar gael i gleifion drwy un o'r partneriaid meddyg teulu. Ar gyfer cleifion ag anghenion iaith eraill, byddai hyn yn cael ei nodi a byddai anghenion yn cael eu diwallu lle bynnag y bo modd, megis drwy ddefnyddio llinell iaith.

Ni chofnodwyd unrhyw swyddi gwag ar adeg y gwiriad ansawdd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Nid oedd yn glir pryd y lluniwyd rhai gweithdrefnau ac asesiadau risg, gan nad oeddent wedi'u dyddio. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl bolisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg wedi'u

² Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

dyddio'n briodol er mwyn dangos pryd y cafodd dogfennau eu hadolygu ddiwethaf a phryd y dylid eu hadolygu nesaf.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Feddygol
Wellspring

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Awst
2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau glanhau yn cael eu dogfennu'n briodol.	2.4	Cwblhau'r archwiliad glanhau ar ôl cynnal hapwiriadau.	S Thomas	Mis
2	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl bolisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg wedi'u dyddio'n briodol.	3.5	Adolygu'r polisiau, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg cyfredol a sicrhau bod pob un wedi'i ddyddio'n briodol.	A Duddridge	2 fis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: A Duddridge

Dyddiad: 3 Medi 2021